Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Feithrin Pontypwl

**St James Hall**
**St James Field**
**Pont-y-Pŵl**

**Torfaen**
**NP4 6JT**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Feithrin Pontypwl

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Ysgol Feithrin Pontypwl |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Helen Greenwood |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Helen Greenwood |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 a hanner - 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 5 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 17 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun, Mercher a Gwener rhwng 8:30yb a 3:15yp<br><br>Dydd Mawrth & Iau rhwng 8:30yb a 12:45yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydw |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 10 Medi 2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 8 Tachwedd 2013 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 08/03/2022 |

Ychydig iawn o blant sy'n dod o gartrefi lle mae Cymraeg yn iaith gyntaf.

Ychydig iawn o blant sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae'r lleoliad wedi ailgofrestru fel cwmni cyfyngedig ar 26 Ionawr 2022

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau llif rhydd i blant gael mynediad at eu dysgu a chwarae yn yr ardal allanol pan ddymunir

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â’r ddarpariaeth ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad, lle mae oedolyn yn galluogi plant i ddilyn trywydd eu diddordebau a chynnig profiadau sy’n ennyn diddordeb, i’w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae bron pob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus, yn frwdfrydig a hyderus. Mae'r rhan fwyaf yn mynegi eu teimladau'n glir ac yn gwneud dewisiadau effeithiol ynglŷn â ble a gyda phwy i chwarae. Er enghraifft,maent yn penderfynu parhau i chwarae gyda jig-so yn hytrach nag ymuno ag eraill i wrando ar stori ac yn dewis ble i chwarae yn naturiol wrth symud yn hyderus o un gweithgaredd i'r llall. Mae bron pob plentyn yn dangos cymhelliant a dyfalbarhad gwydn yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn ymateb yn eiddgar iawn i her a chefnogaeth yr ymarferwyr. Mae bron pob plentyn yn mynegi barn am eu dysgu a'u chwarae yn hyderus iawn. Enghraifft nodweddiadol o hyn yw yn ystod yr etholiad cyffredinol, lle cafodd y plant gyfle i ddysgu am ystyr pleidleisio drwy rannu eu syniadau a'u dymuniadau ar gyfer yr ardal chwarae rôl, ac i ddewis pa adnoddau roedd eu hangen.

Mae bron pob plentyn yn ymdopi'n dda iawn pan maent yn gwahanu oddi wrth eu rhieni a gofalwyr. Maent yn rhyngweithio'n ardderchog ag ymarferwyr ac ymwelwyr. Maent yn ffurfio ymlyniadau eithriadol o gadarnhaol gyda'u gweithwyr allweddol sy'n effeithio'n arbennig o dda ar eu lles a'u cymhelliant. Mae syniadau'r plant yn derbyn sylw gan ymarferwyr. Maent yn cyfrannu'n effeithiol i'r broses hunanarfarnu ac i werthusiadau parhaus o weithgareddau ac adnoddau. Er enghraifft, awgrymodd y plant y dylid cael wal ddringo ar y llethr serth i fedru defnyddio'r llithren newydd ac maen nhw'n llawn brwdfrydedd wrth ei ddefnyddio. Maent yn ymddiried yn y staff, ac yn hyderus y byddant yn gwerthfawrogi eu rhyngweithiadau. Mae bron pob plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn gwahodd eu ffrindiau i ymuno yn eu chwarae yn hynod siriol.

Mae gan ran fwyaf o blant fedrau annibynnol arbennig o dda. Er enghraifft, maent yn golchi dwylo, tynnu cotiau a bagiau a dewis eu henw wrth hunangofrestru. Mae bron pob un plentyn yn ymddwyn yn ardderchog ac yn gwrtais, gan ddangos parch tuag at ymarferwyr a'u cyfoedion, trwy aros eu tro yn amyneddgar er enghraifft. Mae bron pob plentyn yn cyd-chwarae'n ardderchog, er enghraifft wrth baratoi cawl yn y siop fferm. Mae'r plant hŷn yn rhannu ac yn cydweithredu'n dda iawn gyda phlant ieuengach, gan ddangos creadigrwydd a dychymyg rhagorol, er enghraifft wrth iddynt greu castell allan o flociau pren.

Mae bron pob plentyn yn mwynhau'r cyfleoedd i ddatblygu'n ddychmygol yn yr ardal allanol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu creadigrwydd. Er enghraifftt, maent yn creu sbienddrych cardfwrdd i wylio'r adar yn y parc. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hoffi chwarae mewn grŵp ac mae ychydig yn cymryd mantais o'r mannau bach deniadol a thawel i fod ar eu pen eu hunain neu gyda ffrind. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos medrau dychmygol arbennig wrth drafod hoff gymeriadau o'u llyfrau stori. Mae bron bob pletyn yn archwilio'r amgylchedd yn hynod frwdfrydig, er enghraifft drwy blannu ffrwythau a llysiau a chwilio am bryfed o dan y coed ac yn y gegin fwd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da iawn o'u mannau cychwyn, yn enwedig mewn medrau rhifedd, medrau corfforol ac wrth ddatrys problemau. Mae llawer yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llafar. Mae bron pob plentyn yn dangos lefel ragorol o ganolbwyntio ac ymgysylltiad â'u dysgu, yn enwedig o gael y rhyddid i chwarae'n ddigymell.

Mae rhan fwyaf o blant yn cyfuno’u medrau’n llwyddiannus yn eu chwarae naturiol, er enghraifft wrth ymateb i’r her digymell a osodwyd o sut i adeiladu castell. Maent yn cydweithio'n aeddfed wrth benderfynu pa siâp blociau sydd orau i greu ffenestri. Mae medrau corfforol mwyafrif y plant yn datblygu'n feistrolgar, wrth iddynt oresgyn y broblem o greu pont godi a llwybr cerdded. Maent yn herio medrau corfforol ei gilydd yn naturiol drwy osod blociau cul iawn ar y llawr er mwyn gwneud yr her yn anoddach. Mae medrau creadigol llawer o blant yn datblygu'n effeithiol iawn. Maent yn datblygu eu syniadau’n fedrus trwy chwilio am bapur mawr glas i ddynwared dŵr yn y ffos, a chydweithio i osod ‘crocodeilod’ yn y dŵr. Mae ychydig o blant yn datblygu eu medrau marcio yn bwrpasol i ddynodi a chyfrif 20 crocodeil yn y dŵr.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n astud a dilyn cyfarwyddiadau’n llwyddiannus. Mae tua hanner yn datblygu eu medrau cyfathrebu yn dda iawn wrth drafod digwyddiadau diweddar mewn cyd-destunau newydd, er enghraifft wrth ddisgrifio mewn brawddeg ymestynnol sut mae lindysyn yn trawsnewid i fod yn bili pala.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando’n dda iawn ar storïau, gyda llawer yn cynnig ymateb cadarnhaol i gwestiynau oedolyn. Mae ychydig yn diddori mewn llyfrau yn annibynnol, yn dilyn eu hymweliad â'r parc lleol i adnabod pa adar sydd yn byw yno. Mae bron pob plentyn yn defnyddio offer marcio yn hynod lwyddiannus i ddarlunio a gwneud marciau. Mae tua hanner yn datblygu eu dealltwriaeth o ysgrifennu i bwrpas yn dda, er enghraifft wrth greu rhestr siopa yn y siop fferm.

Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhifedd ac yn defnyddio iaith fathemategol yn llwyddiannus wrth archwilio siâp, patrwm a maint yn eu hamgylchedd. Mae gan lawer o blant ddealltwriaeth arbennig o rif, ac maent yn cyfrif hyd at 10 crocodeil yn hyderus, â’r plant hŷn yn cyfrif hyd at 20 yn effeithiol. Mae ychydig iawn yn adrodd rhifau hyd at 100 wrth ymgolli yn eu chwarae. Mae llawer o blant hŷn yn pwyso llysiau go iawn yn y siop fferm ar gloriannau cydbwyso a digidol yn arbennig, ac yn talu amdanynt yn bwrpasol â darnau arian o'r til.

Mae mwyafrif y plant yn datblygu eu dealltwriaeth o sut i ddefnyddio ffôn symudol i dderbyn archebion yn y siop. Maent yn defnyddio ystod o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn annibynnol fel rhan naturiol o’u chwarae a’u dysgu.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau meddwl a chreadigol yn effeithiol, ac yn archwilio'r broses o gymysgu paent powdwr â dŵr er mwyn creu ystod o flodau gwahanol liw yn effeithiol iawn. Mae ychydig yn datblygu eu medrau yn fedrus iawn wrth gymysgu gwahanol dôn o baent coch.

Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau corfforol yn eithriadol o dda. Maent yn meistroli'r wal ddringo a'r llithren yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu medrau cydbwyso yn feistrolgar, er enghraifft wrth gerdded ar hyd trawst pren heb syrthio. Mae bron bob plentyn yn datblygu eu medrau cydsymud yn effeithiol wrth fynegi'u hunain a mwynhau dawnsio gwerin a chlocsio. Mae’r rhan fwyaf yn datblygu medrau echddygol manwl yn hynod lwyddiannus trwy ymgysylltu yn rhagorol wrth ddefnyddio llif, morthwyl, hoelion, bolltau a chloeon go iawn yn eu chwarae annibynnol.

**Gofal a datblygiad:**

Mae’r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithiadau gyda’r plant yn hynod effeithiol, ac mae perthynas hyfryd yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a’r plant. Mae gan yr ymarferwyr brofiad ardderchog o gefnogi plant i wneud ffrindiau, rheoli eu teimladau, ac ymdopi â sefyllfaoedd anodd. Maent yn cefnogi plant i fedru canolbwyntio ar ddatblygu eu gwydnwch a’u dyfalbarhad yn arbennig o dda. Mae’r ymarferwyr yn darparu cefnogaeth gref i blant er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu dealltwriaeth gadarn iawn o’u hemosiynau, er enghraifft drwy ddefnyddio eu harsylwadau o deimladau plant wrth iddynt hunangofrestru yn ddyddiol. Mae ymarferwyr yn cefnogi plant yn fedrus trwy sgwrsio’n naturiol wrth i’r plant chwarae neu mewn sesiynau amser cylch. Mae agwedd addfwyn a thawel pob ymarferydd yn cael effaith bositif iawn ar ymddygiad y plant.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr o’u cyfrifoldebau, a thrwy arferion dyddiol, maent yn darparu amrediad eang a chyfoethog o gyfleoedd i blant ddatblygu a rhagori. Mae’r ymarferwyr yn llwyddo i wneud amser byrbryd a chinio yn gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau cymdeithasol, gan eistedd gyda’r plant a sgwrsio’n naturiol gyda hwy. Mae’r ymarferwyr yn fodelau rôl ardderchog i’r plant eu hefelychu o ran sut i gadw’n iach a sut i drin pobl â pharch a chwrteisi.

Mae’r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau trylwyr a chadarn i sicrhau iechyd a diogelwch plant. Maent yn cadw cofnodion priodol o unrhyw bryderon, damweiniau, digwyddiadau a gwybodaeth berthnasol yn fanwl. Mae hyn yn cael ei fonitro bob wythnos gan yr arweinydd, sy’n trafod gyda gweithwyr allweddol a’r ymarferwyr eraill i gytuno ar ddeilliannau priodol. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae tystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol gan bob un o’r ymarferwyr sydd yn adlewyrchiad o’r pwyslais cryf a roddir ar ddiogelwch. Mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo arferion da o ran sicrhau bod y plant yn cadw’n iach, er enghraifft trwy ddarparu bwyd iachus a maethlon a thrwy annog y plant i olchi eu dwylo’n rheolaidd.

Mae gan ymarferwyr wybodaeth drylwyr am anghenion unigol pob plentyn. Maent yn cynllunio’n fanwl ar gyfer y camau nesaf, gan adolygu cynnydd y plant yn hynod effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â nhw mewn modd sensitif ac ysgogol. Mae gan ymarferwyr wybodaeth ardderchog am anghenion a hoffterau pob plentyn, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion ychwanegol a phlant mwy abl a thalentog. Maent yn diwallu anghenion pob plentyn yn llwyddiannus iawn, er enghraifft wrth ddangos calendr i blentyn â diddordeb mewn cofnod oedolyn o’r dyddiad ar ddarn o waith. O ganlyniad, mae’n ymestyn medrau rhifedd y plentyn wrtho iddo bwyntio’n llwyddiannus i ddyddiad ei benblwydd a phenblwydd yr oedolyn. Maent yn gweithredu ar wybodaeth gan rieni wrth gofrestru yn hynod grefftus. Mae’r

ymarferwyr yn ymgysylltu'n eithriadol o dda â rhieni a gwasanaethau arbenigol wrth adnabod targedau ac adolygu cynnydd pob plentyn.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd trin pobl o bob cefndir diwylliannol â pharch a goddefgarwch. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth am ddathliadau fel y Flwyddyn Newydd Tseiniaidd a Diwali yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn deall cynaliadwyedd ac ailgylchu trwy brofiadau bywyd go iawn. Maent yn mynd â'r plant o gwmpas y dref i gasglu'r sbwriel a helpu'r awdurdod lleol i gasglu plastig ymestynnol i ailgylchu. Maent hefyd yn derbyn cymorth rhieni i ailddefnyddio adnoddau naturiol cynaliadwy i gyfoethogi eu hamgylcheddau.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod pob plentyn yn gwneud bron popeth drostynt eu hunain yn ystod eu chwarae naturiol drwy gydol y dydd. O ganlyniad, mae bron pob plentyn yn chwilfrydig, yn mwynhau gofyn cwestiynau ac yn datblygu annibyniaeth eithriadol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio dull blaengar a hynod effeithiol o gynllunio sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddiddordebau plant a'r hyn sy'n bwysig i rieni. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth eithriadol o dda o ddatblygiad plant. O ganlyniad, maent yn darparu profiadau ysgogol a phwrpasol, sy'n ddatblygiadol addas ac ystyrlon i blant. Mae gan ymarferwyr ffordd naturiol a thrawiadol o adael i blant arwain eu dysgu drwy gydol y dydd. Maent yn sicrhau cyfnodau hir o chwarae di-dor, sy'n caniatáu amser i blant ymgolli yn eu dysgu a'r hyn sy'n eu diddori. Mae'r ymarferwyr yn annog chwilfrydedd naturiol plant yn arbennig o dda. Er enghraifft, wrth i blant ddarganfod corryn, maent yn eu hannog i ddarganfod y we tu allan.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddysgu a diddori yn eu hardal leol er mwyn atgyfnerthu ymdeimlad o berthyn i'r gymuned. Elfen ragorol o hyn yw'r ymweliad wythnosol â'r farchnad leol i brynu llysiau ffres i'r siop fferm a ffrwythau ar gyfer eu byrbryd dyddiol. Mae arweinwyr wedi sefydlu perthynas eithriadol agos â chartref yr henoed. Mae'r plant yn ymweld yn bythefnosol er mwyn ymuno â'r trigolion i ddarllen stori, plannu bylbiau yn ogystal â dathlu eu penblwyddi. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd penigamp o'r parc i gynnig profiadau gwefreiddiol o ryfeddu ar fyd natur. Er enghraifft, sylwi ar gennin pedr yn blodeuo a theimlo'r rhew ar y borfa ar ôl noson oer. O ganlyniad i wylio adar yn y parc a dilyn syniadau'r plant, mae'r ymarferwyr wedi datblygu ardal gwylio adar yn y lleoliad. Maent yn defnyddio'r parc i gynnal mabolgampau blynyddol i'r gymuned fwynhau yn eu cwmni.

Mae gan ymarferwyr ddulliau arbennig o sicrhau ymdeimlad o Gymreictod a balchder o berthyn i Gymru. Maent yn cynllunio cyfleoedd cyfoethog i'r plant gyfrannu at yr Ŵyl Feithrin ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Mae ymarferwyr yn cydweithio ag arlunydd lleol i ddatblygu prosiectau gyda'r plant. Maent hefyd yn darparu profiad cyfoethog i'r plant ymuno mewn dawnsio gwerin a chlocsio, ac yn trefnu ymweld â theatrau cyfagos i wylio cynyrchiadau Cymreig. Mae naws hynod weladwy a thrawiadol o Gymreictod ar draws y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn arsylwi ar batrymau chwarae ailadroddus y plant yn dda iawn. O ganlyniad, maent yn darparu profiadau sy'n eu caniatáu i ddilyn eu hysfa gref i ailadrodd eu harchwiliadau. Mae hyn yn gam angenrheidiol i alluogi plant i greu ystyr o’r hyn maen nhw’n ei wneud. Mae'r ymarferwyr yn arbennig o dda am ddefnyddio'u harsylwadau wythnosol i fireinio eu gwaith cynllunio, er mwyn gwneud addasiadau i fodloni anghenion pob plentyn. Maent yn cefnogi plant i gymryd risg a datblygu hyder ac annibyniaeth gorfforol yn rhagorol. O ganlyniad, mae'r plant yn ymgolli yn eu chwarae yn hollol annibynnol heb gymorth oedolyn. Enghraifft wych o hyn yw'r modd y mae’r plant yn cymryd risg a defnyddio llif a morthwyl i daro hoelen yn hollol hyderus wrth greu baneri.

Mae diddordebau plant yn greiddiol i sut mae'r ymarferwyr yn cyd-gynllunio a darparu cyfleoedd rhagorol i blant ddatblygu eu holl fedrau mewn cyd-destunau hynod apelgar. Elfen gref iawn yw'r modd y mae'r plant yn cydweithio yn y siop fferm. Mae’r profiad o gymryd cyfrifoldeb o weini cwsmeriaid yn datblygu eu medrau cyfathrebu'n effeithiol. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd i blant ddefnyddio geirfa fathemategol trwy bwyso gwahanol lysiau yn effeithiol iawn, ac yn datblygu eu medrau corfforol wrth dorri llysiau go iawn i wneud cawl. Mae'r ymarferwyr yn cefnogi medrau cymdeithasol a datrys problemau wrth gynnig profiadau go iawn o ddefnyddio offer TGCh yn eu chwarae. Un o brif gryfderau’r addysgu yw bod ymarferwyr yn parchu’r broses o chwarae yn hytrach na chanolbwyntio ar y cynnyrch gorffenedig.

Mae ymarferwyr yn arddangos gwerthfawrogiad a pharch rhagorol tuag at farciau cynnar pob plentyn. O ganlyniad, mae'r plant yn hyderus a pharod iawn i gynrychioli eu syniadau drwy greu rhestri siopa am ragor o lysiau o'r farchnad leol a darlunio'r daith trwy'r gymuned i'r farchnad.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau cadarn ar gyfer arsylwi ac asesu plant. Mae ymarferwyr yn ystyried yn fedrus pryd i ymyrryd yn y chwarae ar adegau priodol. Mae hyn yn gryfder ac yn ddull effeithiol iawn o sicrhau cynnydd i bob plentyn. Maent yn defnyddio'r wybodaeth o'u harsylwadau yn gelfydd i gynllunio'r cam nesaf yn y dysgu. Mae adroddiadau i rieni yn crynhoi cryfderau a meysydd datblygu’r plant yn llwyddiannus

**Yr amgylchedd:**

Mae ansawdd yr amgylchedd o safon ragorol ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ac ymestynnol iawn i blant. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar a diddorol ac yn dathlu creadigrwydd y plant drwy arddangos eu gwaith yn gelfydd. Mae hyn yn creu ymdeimlad o hunan-werth a pherthyn. Mae’r arweinwyr yn darparu ardaloedd chwarae a dysgu ysgogol, sy’n cynnwys ardaloedd tawel a chwarae rôl, cyfleoedd i blant ymchwilio ac ymholi a gweithgareddau sy'n effeithio’n gadarn iawn ar eu dychymyg. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau’n cael eu cadw ar lefel ymarferol i bob plentyn eu cyrraedd yn hawdd ac i alluogi’r plant i’w hestyn a’u dychwelyd heb ymyrraeth oedolion. Mae'r ymarferwyr yn darparu amgylchedd sy'n adlewyrchu a pharchu diwylliannau eraill yn effeithiol iawn. Er enghraifft, maent yn gwahodd ymwelydd i'r lleoliad i rannu ystod o offerynnau cerdd o wahanol wledydd a rhannu gwisgoedd eang o ddiwylliannau gwahanol.

Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn cadw’n iach trwy ddilyn ystod o bolisïau clir a chynhwysfawr iawn. Maent yn rhoi blaenoriaeth i asesu pob risg sy’n perthyn i’r ardaloedd tu mewn a thu allan yn ddyddiol. Mae’r trefniadau ar gyfer diogelwch yn sefydlog ac yn effeithiol iawn. Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod systemau ar gyfer casglu plant ar ddiwedd sesiynau yn drwyadl. Maent yn ymarfer driliau tân yn rheolaidd er mwyn i’r plant ymgyfarwyddo â’r trefniadau hyn. Mae’r lleoliad yn lân a threfnus ac wedi’i gynnal a’i gadw yn dda iawn. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid trylwyr ac yn cynnal archwiliad rheoli heintiau yn rheolaidd. Mae’r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau yn briodol ac o safon uchel, ac yn cael eu cynnal a’u cadw’n dda. Maent yn cydymffurfio â’r safonau diogelwch perthnasol yn dda iawn.

Mae ansawdd yr ardal allanol yn rhagorol ac yn cynnig profiadau eithriadol i blant ddysgu, chwarae ac ymlacio. Mae’r ardal wedi’i chynllunio i alluogi plant i ddatblygu’n gorfforol, yn greadigol ac yn ymchwiliol. Er enghraifft, y defnydd eithriadol a wneir o’r tŷ gwydr. Mae'r plant yn tyfu mefus a thomatos ac yn gwerthu’r mefus i rieni wrth y giât ac yn coginio gyda’r tomatos yn y gegin. Mae’r ardal yn cynnwys nifer o fannau dan do sy’n rhoi cyfle i blant bod ar eu pen eu hunain os ydynt yn teimlo’r angen.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae’r arweinydd yn llwyddo i greu ethos hynod gartrefol a chynhaliol lle mae plant ag ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir iawn sy'n sicrhau bod pob plentyn yn blodeuo mewn awyrgylch ddysgu hapus. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon â'r ymarferwyr, rhieni a'r pwyllgor rheoli yn rhagorol. Mae'n arweinydd ysbrydoledig, sydd â disgwyliadau uchel ohoni hi ei hun a'r ymarferwyr. Mae’r arweinydd yn cefnogi’r ymarferwyr yn llwyddiannus, ac yn eu herio i wneud eu gorau, gan arwain trwy esiampl. Elfen gref o hyn yw ei chefnogaeth i'r ymarferwyr llai hyderus i ddatblygu eu Cymraeg, a’u hannog i fynychu hyfforddiant wythnosol, yn ogystal â darparu cardiau patrymau iaith iddynt i sicrhau cymorth a chywirdeb. Mae hyn yn cael effaith hynod gadarnhaol ar eu hyder ac ar y ffordd maent yn rhyngweithio â phlant. Mae'r arweinydd yn rhagori ar greu diwylliant o berchnogaeth ar y cyd, sy'n arwain at yr awydd cryf i wella'n barhaus gan bawb. Maent yn cydweithio'n ardderchog fel tîm. Mae hyn yn cael effaith rhagorol ar ddatblygiad lles y plant yn ogystal â’r ddarpariaeth sy’n arbennig o ysgogol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau hynod lwyddiannus i adnabod cryfderau’r lleoliad ac unrhyw feysydd i'w datblygu. Mae rhieni’n cyfrannu'n gyson at weithdrefnau’r lleoliad drwy holiaduron pwrpasol, ac mae ganddynt hyder bod yr arweinydd a'r tîm yn gwrando, gan weithredu ar eu barn yn llwyddiannus. Mae’r arweinydd yn awyddus i wella pob agwedd o’r gwasanaeth. Enghraifft wych o hyn yw’r defnydd o gyfarfodydd staff wythnosol sydd wedi eu gwreiddio'n gadarn. Maent yn neilltuo amser pwrpasol i fyfyrio, adnabod a gweithredu ar yr hyn sydd angen ei ddatblygu ymhellach. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gynnydd a lles y plant. Mae arweinwyr yn arfarnu eu cynllun datblygu'n rheolaidd gan fanteisio ar adborth y pwyllgor rheoli, rhieni a'r athrawes gyswllt.

Mae’r arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau hynod effeithiol ar gyfer recriwtio'n ddiogel, a rheoli staff ac adnoddau. Mae'r arweinydd yn craffu ar berfformiad ei holl staff yn dda iawn. Mae’n arwain mewn modd cynhwysol, sy'n galluogi ymarferwyr i ymgymryd â’r cyfrifoldebau dirprwyedig yn llwyddiannus. Mae cyfleoedd niferus i'r

ymarferwyr dderbyn hyfforddiant pwrpasol sy’n dylanwadu’n gryf iawn ar y ddarpariaeth. Er enghraifft, maent yn treialu dull gwahanol o gynllunio sy'n cydweddu â gofynion y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. Mae'r arweinydd yn monitro effaith hyfforddiant yn arbennig gan sicrhau bod ymarferwyr yn gwneud y defnydd gorau o'r hyn maent wedi'i ddysgu

Mae arweinwyr yn monitro’r gyllideb yn drwyadl i ddarparu addysg o ansawdd eithriadol i bob plentyn, er enghraifft wrth ddatblygu ardal allanol sy’n cyfoethogi profiadau dysgu a medrau'r plant yn hynod llwyddiannus.

Mae cysylltiadau cadarnhaol yn bodoli rhwng yr arweinydd â’r ysgolion lleol. Mae’n cydweithio’n agos gyda nhw i sicrhau bod y plant yn pontio’n llwyddiannus, ac yn symud yn ddeallus i’r cam nesaf o’u haddysg. Mae’r arweinydd yn sicrhau bod y gymuned yn rhan allweddol o'r lleoliad. Un o gryfderau pennaf y lleoliad yw’r berthynas arbennig maent wedi ei sefydlu â rhieni. Mae’r rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi’r gofal unigol ac arbenigol sy’n cael ei ddarparu ar gyfer eu plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/05/2022